**Ffugenw Sali Mali**
**Oedran Blwyddyn 11 – 13**

Teitl: Rhwygodd yr amlen ar agor.....

Sŵn y byw diflasa'n bod. Siffrwd y gwynt, chwyrnu bondigrybwyll y ceir. Roedd Miri wedi bod yn gyrru am oriau maith yn nrysfa'r draffordd, a'i meddwl yn troelli. Roedd y machlud fel gwawr ar orwel cudd, y bryniau'n cysgodi'r cymoedd ar niwl yn gwisgo'r bryniau draw. Ond, roedd yr hen gwestiwn yn pwyso'n drymach nag erioed ar ei meddwl. Dychwelyd adref i'r fferm deuluol, neu dilyn ei breuddwydion i'r ddinas fawr?  Teimlo bod y byd mor fawr, a hithau mor fach â phwysau pawb arni.

Ers yn blentyn roedd llwybr Miri yn glir o'i blaen hi. Ei chartref, ei chymuned a'i hangor. Fferm Rhos-fawr. Ambell dro, dim ond un lle oedd i fynd.  Olion breuddwydion y ganrif gynt. Ei chyndeidiau wedi creu patrwm y caeau, magu'r defaid, adeiladu siediau, trin y gwartheg a phlannu'r cnydau, ac ôl y grefft i'w weld hyd heddiw. Y waliau'n sibrwd hanes wrthym bob dydd. Ond eto roedd Miri'n teimlo bod y tir hwn yn ei rwystro hi. Cafodd hi ei geni a'i magu ar y fferm hon, ond roedd y disgwyliad o ddychwelyd i Rhos-fawr yn ei brawychu. Roedd bywyd yn y wlad yn cael ei weld fel ffordd o fyw. Nid gwaith yn unig oedd hyn, ond cyfrifoldeb, hunaniaeth a dilyniant teulu. Fel ddedodd ei thad, cyntaf i'r felin ceith falu.

Ond roedd Miri yn wahanol, yn unigryw. Doedd hi ddim fel pob merch fferm arall. Ond roedd darn ar goll o jig-so bywyd Miri.  Hi oedd y cyntaf yn ei theulu i fynd i'r brifysgol, a bu bron i bawb orfoleddu wrth iddi lwyddo. Ond, ers iddi gamu mewn i doeon llwyd y brifysgol, gwelodd hi fywyd mewn goleuni gwahanol. Byd y ddinas fawr a chyfleoedd nad oedd ar gael yng nghanolbarth Cymru. Roedd ei holl ffrindiau wedi gadael y brifysgol— rhai wedi dychwelyd i'w gwreiddiau, rhai ar grwydr i bedwar ban byd ac eraill wedi canfod swyddi mewn ardaloedd mwy dinesig. Ond, wrth siarad gyda nhw dros neges destun ac edrych ar holl luniau ei ffrindiau, dechreuodd bendroni. Ydw i'n colli allan ar ryfeddodau'r byd? Crwydro drwy goedwig law Amazon, dringo i dop Everest, reidio eliffantod yn wlad Thai, a sledgio yn nhywod y Sahara. Roedd yn ymddangos fel bod pawb wedi symud ymlaen. Roedd ei gorwelion mor agos ond eto mor bell. Roedd penderfyniadau bywyd yn wir, yn ddiddarfod. Roedd ei chalon yn tynnu'n bellach o'i hangor bob dydd. Penbleth go iawn.

Roedd ei ffrindiau yn y ddinas wedi dod yn deulu newydd iddi— pobl yr oedd Miri yn gallu uniaethu efo. Cariad at gelf, theatr, a'r rhyfeddodau o fywyd dinesig. Roedd ei chalon yn perthyn yn y ddinas, lle'r oedd cyffro newydd bob dydd, a'r teimlad y gallai ddod yn rhywbeth mwy, rhywun a oedd wedi cyflawni ei breuddwydion ei hun. Roedd hi wedi dod o hyd i swydd rhan amser mewn oriel gelf, swydd gyffrous a byddai'n gam agosach i yrfa o'i breuddwydion. Ond ni soniodd air i'w rhieni.

Rhai diwrnodau yn ôl, canodd y ffôn, ei Mam oedd yno. Llais sigledig, gwan, gofidus. Roedd y ffon yn teimlo fel wal fawr China rhyngom.  Cledr yn erbyn cledr, bysedd rhwng bysedd. Tawelwch llwyr… Roedd hi'n dawelach nag arfer, ond roedd Miri yn gallu synhwyro'r gofid a'r pwysau bob tro roedd y sgwrs yn codi. Byddai ei Mam o hyd yn negatif wrth drafod bywyd y ddinas- "Ti'n gwybod pa mor anodd yw hi gael swydd mewn dinas a phwy fydd yn dy helpu di os fydd rhywbeth yn mynd o'i le?"

Roedd hi’n gyfnod anodd ym mhyd amaeth. Costau uchel, rheolau newydd ar dyfodol yn ansicr. Roedd y fferm a fy rhieni yn cael ei gwthio i'r eithaf, a fy nhad yn heneiddio.
Rydyn ni'n ei chael hi'n anodd, Miri. Wyt ti'n gallu dod adref dros dro i rhoi help llaw? Dim ond tan fyddwn ni'n gallu sefydlogi pethau eto." Dyfal donc a dyrr y gared. “Yr oedd "dros dro" yn air a oedd yn llawn disgwyliad cuddiedig. Roedd Rhos Fawr yn fwy na gwaith—roedd yn rhan o’n treftadaeth. Heb rywun i gymryd yr awenau, be fyddai’n digwydd i'r lle? Miri oedd yr unig obaith i barhau’r fferm deuluol, ac roedd hynny’n gwneud iddi deimlo fel petai ei dyfodol wedi cael ei ysgrifennu iddi. Y baich o fod yn unig blentyn. Yr unig etifedd. Wrth i’w ffrindiau flodeuo mewn byd newydd, roedd Miri yn cael ei dynnu yn ôl gan rwydwaith o gyfrifoldebau a disgwyliadau. Un droed yn yr oriel a chelfyddyd ar llall yn ddwfn yn y tir.

Roedd Miri mewn penbleth go iawn. Os oedd am fynd yn ôl, a fyddai'n aros am byth? Straffaglu byw ar y fferm.  Y gwirionedd oedd y byddai angen rhywun am amser hirach nag y gallai unrhyw "dros dro" ei gynnig. Ond beth oedd y dewis arall? Gadael i’r fferm fynd i drafferthion?

"Deffrodd i arogl bara ffresh Mam yn llenwi ei ffroenau, a sŵn byddarol y cŵn. Agorodd ei llygaid. Roedd hi adref! "Miri!" Atseiniodd llais cynnes ei Mam o'r ystafell flaen, ac yna sŵn esgidiau trwm ei thad yn brasgamu ar y llechi oeraidd. Cafwyd pnawn Sul llawn straeon ac atgofion. Dal i fyny dros baned o de wrth y tan grasboeth. Siarad am yr hen ddyddie da, Miri yn hel defaid gyda'i thad yn y mynyddoedd a hithau yn anghofio cau'r gat ar ei hol. Wel dyna starch! Melys chwerw oedd y sgwrs wrth feddwl am ddyfodol ansicr y fferm.

Roedd meddwl Miri ar ras y noson honno. Noson o droi a throsi, pendroni a hel meddylie. Roedd gan ei thad yr holl hyder yn y byd y byddai hi'n dychwelyd i gynorthwyo, i achub y fferm, a’r teulu. Ond beth am ei breuddwydion hi? A oedd o’n deg iddi roi popeth fyny, y bywyd yr oedd wedi ei adeiladu yn y ddinas, a'r cyfleoedd yr oedd hi wedi gweithio'n galed i’w hennill?

Y bore wedyn, bu Miri a’i thad yn y gorlan yn trin y defaid am oriau. Ond roedd meddwl Miri yn bell o’r gwaith tra’n ystyried y ddau opsiwn yn ofalus. Roedd ei thad yn edrych mor hen yn awr, ei symudiadau yn arafach a’i gryfder yn gwanhau wrth drin y defaid…

Ar ôl diwrnod o waith caled, eisteddodd Miri a’i thad wrth fwrdd y gegin, ac edrychodd ar ei lygaid trwm blinedig, ond dal yn llawn cariad a balchder. Fe wyddai nad oedd unrhyw ateb hawdd. Ond roedd un peth yn sicr—ni all fyw bywyd oherwydd disgwyliadau eraill.

"Mae gen i rywbeth i'w ddweud," meddai hi’n ysgafn. Roedd ei rhieni’n edrych arni, yn dawel. Doedd dim smic i’w glywed.
Ydyn nhw’n mynd i gefnu arnai? Ydw i’n bradychu fy rhieni? "Rhaid i mi hefyd ddilyn fy nhaith i, dilyn fy mreuddwydion yng Nghaerdydd” Roedd ei rhieni'n edrych yn siomedig, a’r rhystredigaeth yn amlwg yn llygaid ei thad. "Rwy’n falch o ti, Miri. Mae’n rhaid i ti wneud yr hyn sy'n iawn i ti” meddai ei Mam.

Roedd y penderfyniad wedi ei wneud— dilyn fy mreuddwyd yn y ddinas. Roedd bywyd rhwng y ddau fyd yn amhosib, gyda’r cyfaddawd a’r ddealltwriaeth bod ei llwybr ei hun mor bwysig â’r llwyth o hanes a thraddodiad.

Bore trannoeth, deffrodd Miri i sgrech ei Mam yn galw enw’i thad drosodd a throsodd. Daeth ias oer drosti. Beth sydd wedi digwydd i Dad? Cododd yn ddryslyd o’r gwely a sylwodd ar amlen o dan y drws. Llawysgrifen Dad. Rhwygodd yr amlen ar agor.....